**LC1389**

wpe1.jpg (16499 bytes)

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") fel y nodwyd yn y Nodyn Esboniadol.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7

Mae Rheoliad 3(b) yn mewnosod croesgyfeiriad at offeryn diwygio. Mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at "1250/2006" tra bo’r Gymraeg yn cyfeirio at "660/2006". Y testun Saesneg sy’n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)].

Mae Rheoliad 3(c) yn honni ei fod yn diwygio’r diffiniad o "Rheoliad y Cyngor 1782/2003". Mewn gwirionedd, y term diffiniedig yw " Rheoliad y Cyngor ". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 3(c) hefyd yn mewnosod croesgyfeiriad at offeryn diwygio. Mae’r testun Saesneg yn

cyfeirio at "953/2006" tra bo’r Gymraeg yn cyfeirio at "1156/2006". Y testun Saesneg sy’n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)

Mae’r diffiniad o "Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2092/1991" yn rheoliad 5(5) yn cynnwys croesgyfeiriad at Reoliad "780/2005". Y croesgyfeiriad cywir yw "780/2006". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 5(5) hefyd yn cyfeirio at "the latest edition of the Compendium of UK Organic Standards" yn y cyd-destun bod yn rhaid darllen deddfwriaeth y Gymuned gydag ef. Mae’n rhaid ei fod yn cyfeirio at y fersiwn a gyhoeddwyd cyn gwneud y Rheoliadau hyn ac felly dylid cyfeirio at y dyddiad cyhoeddi. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu wallau teipograffyddol yw’r rhain sy’n addas i’w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Tachwedd 2006